CYFRES B8

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Mathew 9: 9 -13

ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 16: 16

(Yn y gyfres hon o wersi, bydd gofyn i chi ddarllen llawer o wahanol adnodau yn ogystal â'r Darlleniad o'r Beibl. Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus cyn ei ateb)

Gwers 1 Y Rhai a Ysgrifennodd yr Efengylau – Mathew

Pwy oedd Mathew?

Efengyl Mathew yw'r Efengyl gyntaf. Iddew oedd Mathew. Fe ysgrifennodd ei neges er mwyn ceisio profi wrth yr Iddewon mai Iesu oedd y Meseia yr oedd Duw wedi'i addo, trwy'r proffwydi, i'r Iddewon. Roedden nhw wedi bod yn disgwyl am amser hir am y Meseia (neu Grist).

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau hyn i gael gwybod beth oedd enw arall Mathew.

_____ _____ _____ _____

I

C Lle oedd Mathew'n eistedd pan welodd Iesu ef? Ysgrifennwch yr ateb ar y bwrdd.



I

C Beth ddywedodd Iesu wrth Mathew?

I

C Darllenwch Luc 5:28. Ysgrifennwch beth wnaeth Mathew wrth ufuddhau i Iesu.

I

Heddiw, mae Iesu'n dweud yr un peth wrthon ni ag y dywedodd e wrth Mathew. Ydyn ni'n barod i wneud yr un peth â Mathew a rhoi ein bywydau iddo fe? O'r funud honno, newidiodd bywyd Mathew a daeth yn un o 12 disgybl Iesu. Wrth iddo deithio gyda Iesu, roedd yn clywed yr hyn yr oedd yn ei ddysgu ac yn gweld llawer o'i wyrthiau.

Mathew yn disgrifio Iesu, y Brenin.

Ar ddechrau ei Efengyl, mae Mathew yn sôn am Iesu'n cael ei eni. (Mathew, penodau 1 a 2)

C Lliwiwch y geiriau isod yn y

POS GEIRIAU

Maen nhw wedi'u hysgrifennu am yn ôl, ymlaen, i fyny ac i lawr.

Geni, Dwyrain, Seren, Mair, Aur, Jwdea, Addoli,

	B	R	E	N	I	N
N	I	A	R	Y	W	D
M	I	R	U	A	Y	R
A	N	A	DD	O	L	I
I	E	A	E	D	W	J
R	G	S	E	R	E	N
I	DD	E	W	O	N	

C Ysgrifennwch y llythrennau sydd ar ôl, ô'r chwith i'r dde ar draws y pos, i gael gweld am bwy yr oedd y Seryddion (neu'r Doethion) yn chwilio er mwyn ei addoli.

_ _ _ _

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 12: 5-12
Marc 1: 14, 15, 34 a 39

ADNOD ALLWEDDOL
Marc 10: 45

Gwers 2 Y Rhai a Ysgrifennodd yr Efengylau – Marc

Efengyl Marc yw'r fyrraf o'r pedair Efengyl a chafodd ei hysgrifennu'n bennaf ar gyfer y Rhufeiniaid. Os darllenwch Efengyl Marc trwyddi, fe welwch nad yw Marc yn sôn am lawer o arferion Iddewig fel y gwnâi Mathew. Mae stori Marc fel ffilm gyffrous sy'n symud yn gyflym!

Pwy oedd Marc?

Enw Lladin (Rhufeinig) oedd Marc ond roedd yr Iddewon yn ei alw wrth ei enw Hebraeg.

C Darllenwch Actau 12:12 eto i weld beth oedd enw Hebraeg Marc a thynnwch linell o dan yr ateb cywir. 1

Luc Ioan Pedr Mihangel

Yn y Darlleniad hwn o'r Beibl, gwelwn fod teulu Marc yn adnabyddus yn nyddiau cynnar yr eglwys. Roedd Cristnogion Jerwsalem yn cwrdd yn ei gartref.



C 1. Beth oedd y Cristnogion yn ei wneud?
2. Pam roedden nhw'n gwneud hynny?
3. Beth oedd enw ei fam? 3

Yn un o lythyrau Pedr (1 Pedr 5:13), mae'n galw Marc yn "fy mab". Dydi hynny ddim yn golygu mai Pedr oedd tad Marc ond bod Pedr yn meddwl y byd o Marc. Mae'n eithaf posibl bod Marc wedi dod yn Gristion wrth glywed Pedr yn sôn am Iesu.
Fel Cristion, roedd Marc yn awyddus i wasanaethu Duw ac mae Actau 12:25 ac 13:4 a 5 yn dangos sut yr helpodd Marc ei gefnder Barnabas a Paul i ledaenu'r Newyddion Da am Iesu.



C O dan y llong, ysgrifennwch enw'r ynys yr hwyliodd Marc iddi. 1

Ond, ar ail daith genhadol Paul, doedd e ddim yn awyddus i fynd â Marc gyda nhw.

C Darllenwch Actau 15:36-38 ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU eich hunan pam yr oedd hyn. 2

C Ysgrifennwch enw'r dyn oedd yn awyddus i fynd â Marc gyda nhw. 1

Er bod Marc wedi siomi ei ffrindiau oedd yn gwasanaethu Duw pan oedd yn ifanc, wrth iddo dyfu'n hŷn fe ddysgodd o'i gamgymeriadau. Yn wir, ar ddiwedd bywyd Paul, fe anfonodd am Marc gan ei fod yn gwybod y gallai Marc ei helpu. (2 Timotheus 4:11)

Mae Marc yn dweud mai Iesu oedd y Gwas Perffaith.

Mae'n hyfryd gweld bod Duw yn gallu defnyddio dyn a oedd yn methu cyrraedd y nod weithiau i ysgrifennu am Was Perffaith Duw, Iesu Grist.
Yn 16 pennod ei Efengyl, mae Marc yn canolbwyntio ar y pethau a wnaeth Iesu, yn fwy nag ar y pethau a ddywedodd. Yn wir, mae'n nodi 18 o wyrthiau.
Gan mai hanes Gwas sydd yma, dydi Marc ddim yn sôn am eni Iesu na'i fywyd yn blentyn ac mae'n dechrau gyda'i fywyd cyhoeddus prysur.
Mae gwas bob amser yn brysur â'i ddwylo.

C **Darllenwch yr adnodau isod ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth wnaeth Iesu â'i ddwylo.**

Marc 1: 30 a 31

Marc 1: 41

Marc 5: 41

3

Hefyd, mae gwas yn gweld pethau y mae angen eu gwneud.

C **Darllenwch y ddwy adnod hyn ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth welodd Iesu ac wedyn beth wnaeth e.**

Marc 6: 34

Marc 6: 48

2

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu'r gwaith mwyaf a wnaeth Iesu Grist ar ein rhan.**

3

Roedd marw ar y groes yn waith mawr gan ei fod yn golygu bod unrhyw un sy'n credu ynddo yn gallu cael maddeuant. Roedd yn ei iselhau hefyd achos cafodd ei drin yn waeth na chaethwas! Roedd Duw wedi'i blesio cymaint â'i waith nes iddo godi ei Was o farw'n fyw.

Mae Marc yn dangos bod Iesu'n defnyddio pobl eraill i'w wasanaethu.

Er mwyn parhau â gwaith mawr Duw, dewisodd Iesu weision arbennig.

Llanwch y GRID GEIRIAU trwy ateb y cliwiau isod.
Darllenwch Marc 3:13-16.

1. Nifer y 'gweision arbennig' gafodd eu dewis.
2. Beth roddodd Iesu iddynt i wella pobl sâl.
3. Enw brawd Iago
4. Enw'r gwas oedd hefyd yn cael ei alw'n Pedr.



Mae Duw eisiau i ni gredu yn ei Fab a byw bywyd o wasanaeth fel y gwnaeth ef.
Bydd yn rhoi nerth i ni i'w wasanaethu ef.

4

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 1: 1-4

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 19: 10

Gwers 3 Y Rhai a Ysgrifennodd yr Efengylau – Luc

Ydych chi wedi gorfod ysgrifennu adroddiad manwl o ryw ddigwyddiad arbennig yn yr ysgol, fel ymweliad rhywun enwog neu daith ysgol? Adroddiad manwl am rywun Arbennig Iawn yw Efengyl Luc!

C **At bwy y mae Luc yn ysgrifennu?**



1

C **Darllenwch adnod 4 eto ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pam yr ysgrifennodd Luc ato.**

1

Pwy oedd Luc?

Dim ond dair gwaith y mae Luc yn cael ei enwi yn y Testament Newydd. Roedd yn ffrind agos iawn i Paul. Wrth i ni ddarllen yr Actau, sydd hefyd wedi cael eu hysgrifennu gan Luc, rydym yn gweld ei fod gyda Paul yn aml.
[Actau 16:10-12] Yn Colosiaid 4:14, mae Paul yn disgrifio'i ffrind da, Luc.

C **Ysgrifennwch beth y mae Paul yn ei ddweud am Luc.**

2

Yn llythyr olaf Paul, a ysgrifennodd at Timotheus, o'r carchar, mae'n dweud bod Luc wedi bod yn ffyddlon iddo.

C **Ysgrifennwch beth y mae Paul yn ei ddweud am Luc yn 2 Timotheus 4:11.**

2

Mae Luc yn disgrifio Iesu fel y Dyn Perffaith.

Doedd Luc ddim yn Iddew ac felly, yn ei Efengyl, mae'n esbonio arferion a llefydd Iddewig yn ofalus i helpu pobl eraill oedd ddim yn Iddewon. Mae Luc eisiau i ni ddeall bod Iesu yn ddyn ac yn Dduw. Mae'n dechrau trwy ddisgrifio geni'r Iesu.

C **Darllenwch Luc 2:11 a thanlinellu'r gair y mae'r angel yn ei ddefnyddio i ddisgrifio Iesu.**

Brenin Gwas Gwaredwr Bugail

1

Luc yw'r unig un sy'n sôn am bethau a ddigwyddodd pan oedd Iesu yn fachgen.

C **Darllenwch Luc 2:52 a rhoi cylch o gwmpas enwau'r rhai y cafodd Iesu ffafr gyda nhw wrth iddo dyfu.**

Phariseaid Duw Rhufeiniaid Ysgrifenyddion Dynion

2

Mae Luc yn adrodd hanes temtio Iesu hefyd.

C **Darllenwch Luc 4:1-12 a rhoi ✔ neu ✗ i ddangos a yw'r rhain yn GYWIR neu'n ANGHYWIR:-**

Trodd Iesu gerrig yn fara. .....

Bu Satan yn ceisio temtio Iesu i'w addoli ef. .....

Ni lwyddodd Satan i demtio Iesu. .....

3

Yn wahanol i ni, roedd Iesu yn berffaith. Ond, mae'r hyn a ddigwyddodd yn ei fywyd yn dangos ei fod yn ddyn yn ogystal ag yn Dduw.

C **Darllenwch y tair adnod hyn a llenwi'r bylchau yn y brawddegau sy'n dangos bod ganddo deimladau fel ni.**

Luc 4:2 Roedd eisiau b..... arno.

Luc 8:23 Aeth i g.....

Luc 19:41 W.....

3

Wrth i Luc fynd ymlaen â'i stori am y Dyn Perffaith, mae'n pwysleisio fod Iesu'n gweddïo llawer ac mae'n sôn yn aml am ei gariad at bobl eraill. Mae'n galw Iesu yn Fab y Dyn.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a nodi pa fath o bobl y daeth i'w helpu. Dyna oedd cenhadaeth fawr Mab y Dyn.**

1

Mae Luc yn dweud sut y llwyddodd i wneud hynny trwy farw ar y groes.
Pan gafodd Iesu ei groeshoelio, dywedwyd pethau rhagorol amdano sy'n dangos mai ef oedd y Dyn Perffaith.

C **Ysgrifennwch y rhannau o'r adnodau sy'n dangos bod Iesu'n Ddyn Perffaith.**

Beth ddywedodd Peilat? (Luc 23:14)

Beth ddywedodd y lleidr? (Luc 23:41)

Beth ddywedodd y canwriad? (Luc 23:47)

3

Yn olaf, mae Luc yn sôn am Iesu'n atgyfodi ac yn mynd i'r nefoedd.

C **Darllenwch Luc 24:51 ac ysgrifennwch yn y cwmwl lle mae'r Arglwydd Iesu heddiw.**

1

Mab Duw, Iesu Grist, oedd y Dyn Perffaith ac fe fu farw i fod yn Waredwr ac yn Arglwydd i chi. Ydych chi wedi gofyn iddo am faddeuant? Ydi e'n Ffrind i chi? Os ydyw, gallwch chi fod fel Luc a dweud wrth bobl eraill pa mor rhyfeddol yw Iesu!

Enw _____

DARLLENWCH
Ioan 20: 26-31

ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 20: 31

Gwers 4 Y Rhai a Ysgrifennodd yr Efengylau – Ioan

Pwy oedd Ioan?

Fel Mathew, roedd Ioan yn un o'r 12 disgybl. Yn wir, roedd yn un o'r rhai cyntaf i ddilyn Iesu. Roedd yno pan gafodd Iesu ei groeshoelio ac roedd yn dyst i'r atgyfodiad. Yn ogystal ag ysgrifennu'r Efengyl, fe ysgrifennodd dri llythyr byr a'r Datguddiad.
Darllenwch 1 Ioan 1:1. (Hwn yw'r cyntaf o'i dri llythyr neu epistol).
Yma, mae Iesu'n cael ei alw'n 'Air y Bywyd'.

C Rhowch ✔ neu ✗ i ddangos a yw'r ffeithiau hyn am Ioan a Iesu yn GYWIR neu'n ANGHYWIR:-



Roedd Ioan wedi clywed Iesu'n siarad. .....

Dim ond mewn breuddwyd roedd Ioan wedi gweld Iesu. .....

Roedd Ioan wedi cyffwrdd â Iesu â'i ddwylo. .....

3

Dydi Ioan ddim yn sôn amdano'i hunan wrth ei enw yn ei Efengyl ond mae'n cyfeirio ato'i hunan mewn ffordd arbennig.

1

C Darllenwch Ioan 13:23 a Ioan 20:2 i weld beth roedd Ioan yn ei alw ei hunan.

C Llanwch 'goeden deulu' Ioan trwy ddarllen Marc 1:19 a 20 ac ysgrifennu eu henwau.

Tad: _____

Mam

Ioan

Brawd: _____

2

C Beth oedd gwaith Ioan? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.

Pobydd Ffarmwr Adeiladwr Pysgotwr

1

Roedd Ioan a'i frawd, a'u ffrind Pedr, yn griw arbennig o fewn i gylch y 12 apostol.

Mae Ioan yn galw Iesu'n Fab Duw.

Rydyn ni wedi gweld bod Luc yn pwysleisio mai Iesu yw'r Dyn Perffaith. Mae Ioan yn pwysleisio ei fod yn Fab Duw.

Darllenwch yr adnodau isod ac ysgrifennu sut y mae Iesu'n ei ddisgrifio'i hunan.

Myfi yw y .....Ioan 10:9

Myfi yw y .....Ioan 10:11

Myfi yw y .....Ioan 14:6

Myfi yw y .....Ioan 15:1

8

Mae "Myfi yw" neu "Ydwyf" yn un o deitlau neu enwau Duw. (Gweler Exodus 3:14)
Yn Efengyl Ioan, mae Iesu'n defnyddio'r teitl hwn amdano ef ei hunan.

Duw mewn corff dyn yw Iesu Grist.

C **Isod, dyma dri datganiad arall sy'n dechrau â 'Myfi yw' a thair gwyrth a wnaeth Iesu. Tynnwch linell o bob un o'r datganiadau 'Myfi yw' i'r wyrth sy'n perthyn orau iddo.**

"Myfi yw'r Atgyfodiad a'r Bywyd." (Ioan 11:25)	Iesu'n bwydo'r 5,000. (Ioan 6)
"Myfi yw Goleuni'r Byd." (Ioan 8:12)	Iesu'n codi Lasarus o farw'n fyw. (Ioan 11)
"Myfi yw Bara'r Bywyd." (Ioan 6:35)	Iesu'n iachau dyn dall. (Ioan 9)

3

Roedd y gwyrthiau i gyd yn 'arwyddion' bod Iesu'n Fab Duw.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu'r gair sy'n dweud wrthym beth y mae Ioan yn gobeithio y bydd pawb ohonom yn ei wneud o ganlyniad i ddarllen ei Efengyl. (Mae hwn yn air pwysig sy'n digwydd 99 o weithiau yn Efengyl Ioan)**

2

Mae'r pedair Efengyl yn dweud wrthym bod Iesu'n berson rhagorol. Ydych chi wedi cael bywyd tragwyddol trwy gredu yn Iesu? Cofiwch ei eiriau ef sy'n dechrau â "Myfi yw" yn Ioan 14:6.

"Myfi yw'r FFORDD a'r GWIRIONEDD a'r BYWYD.
Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof Fi."

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120